promoting equality in housing
hybu cydraddoldeb ym maes tai

# Profiadau pobl sydd â nodweddion gwarchodedig yng Nghymru o ddigartrefedd

Mawrth 2023

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

## Pwy ydyn ni

Elusen gofrestredig a chwmni cyfyngedig drwy warant yw Tai Pawb. Ein gweledigaeth yw "Cymru lle mae gan bawb yr hawl i gael cartref o ansawdd da". Mae gennyn ni system aelodaeth sydd ar agor i awdurdodau lleol, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, sefydliadau'r trydydd sector (y sector gwirfoddol), cyrff eraill sydd â diddordeb yn y maes tai, ac unigolion.

## Ein gwaith ni

Mae Tai Pawb yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid pwysig eraill ar strategaethau tai cenedlaethol, ac mae'n rhan o weithgorau pwysig. Ei nod yw sicrhau bod cydraddoldeb yn ystyriaeth annatod wrth ddatblygu strategaethau cenedlaethol a'u rhoi ar waith. Mae'r sefydliad hefyd yn rhoi cyngor a chymorth ymarferol i'w aelodau am amryw o faterion sy'n ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth yn y maes tai a gwasanaethau cysylltiedig, gan gynnwys QED – yr achrediad cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y sector tai. Rydyn ni hefyd yn rhan o gynghrair o'r enw "Cefnogi'r Bil", sy'n ceisio sicrhau bod gan **bob dinesydd** yng Nghymru yr hawl gyfreithiol i gael cartref iawn.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: **www.taipawb.org**

Rhif cofrestru'r elusen: 1110078
Rhif y cwmni: 5282554

## Rhagair

Hoffai Tai Pawb ddiolch i'r cyfranogwyr am eu hamser ac am fod yn onest wrth rannu eu profiadau o ddigartrefedd. Hoffen ni hefyd ddiolch i staff ein partneriaid ymchwil, sef Action for Elders, y Prosiect Cyngor Anabledd, Sipsiwn a Theithwyr Cymru, Home4U, Mela Cymru, a Women Connect First, am eu gwaith yn cynnal y cyfweliadau a'r grwpiau ffocws.

**Crynodeb Gweithredol**

Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio gwneud digartrefedd yn rhywbeth prin, ac yn brofiad byr na fydd neb yn gorfod ei wynebu'r eildro.

Fel rhan o hyn, mae wrthi'n adolygu'r gyfraith ym maes tai a digartrefedd gan roi ffocws o'r newydd ar atal digartrefedd ac ailgartrefu pobl yn gyflym. I sicrhau bod lleisiau a phrofiadau pobl sydd â nodweddion gwarchodedig wedi'u cynnwys yn y broses hon, comisiynwyd Tai Pawb gan Lywodraeth Cymru i ganfod profiadau pobl sydd â nodweddion gwarchodedig o ddigartrefedd. Fel rhan o'r gwaith ymchwil hwn, rydyn ni wedi ymwneud â'r canlynol:

- Ceiswyr lloches
- Ffoaduriaid
- Pobl anabl
- Cymunedau pobl Dduon a phobl leiafrifol
- Sipsiwn a Theithwyr
- Pobl hŷn
- Pobl LHDTC+

Bydd yr adroddiad hwn yn cyflwyno'r canfyddiadau o dan bob un o'r grwpiau hyn, cyn cloi gydag adran fer am y pethau i'w hystyried ar gyfer yr holl grwpiau.

Dyma rai o'r prif themâu a ddaeth i'r amlwg o dan bob grŵp:

Pobl anabl:

- Y system ddim yn gallu rheoli sefyllfaoedd pobl anabl
- Anabledd ddim yn ystyriaeth bwysig
- Diffyg eiddo addas a diffyg gwybodaeth am eiddo

Sipsiwn a Theithwyr:

- Diffyg tosturi ymddangosiadol
- Diffyg llety addas
- Olyniaeth
- Deall y system

Pobl hŷn:

- Oedran yn cymhlethu ymatebion cynghorau
- Diffyg llety addas

Ceiswyr lloches a ffoaduriaid

- Diffyg llety addas (llety dros dro a pharhaol)
- Methu ag atal digartrefedd
- Anallu i weithio

Cymunedau pobl Dduon a phobl leiafrifol

- Cyfathrebu â'r cyngor
- Llety dros dro anaddas
- Amodau byw gwael a landlordiaid gwael
- Cam-drin domestig a heriau diwylliannol

LHDTC+

- Diffyg casglu data
- Eu profiad o lety dros dro
- Risgiau penodol sy'n gysylltiedig â symud o soffa i soffa
- Heriau sy'n gysylltiedig â dehongli'r rheolau presennol ynghylch cysylltiadau lleol

Ym mhob grŵp, clywyd straeon cyson am y canlynol:

- Y system neu staff cynghorau ddim yn gwrando neu ddim yn deall, a'r angen am eiriolaeth gan gorff allanol i ddatrys y sefyllfa (h.y. elusen).
- Diffyg hyblygrwydd yn y gyfraith a/neu mewn systemau i reoli manylion penodol sy'n gysylltiedig â rhai o'r amgylchiadau.

Yn rhan olaf yr adroddiad, rydyn ni'n cyflwyno nifer o ystyriaethau ynghylch sut gallai'r gyfraith a gwasanaethau yn y maes tai yng Nghymru reoli'r profiadau a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn mewn ffordd well. Yn benodol, rydyn ni'n dangos bod angen i'r gyfraith ac i wasanaethau ateb anghenion pobl sydd â

nodweddion gwarchodedig mewn ffordd well, ac na fydd hi'n bosibl rhoi diwedd ar ddigartrefedd heb wneud hyn.

Yn fwy penodol, canfuwyd y themâu canlynol i'w hystyried:

1) Mae'n ymddangos bod pobl sydd â nodweddion gwarchodedig yn wynebu anawsterau ychwanegol sy'n gysylltiedig â digartrefedd, fel y canlynol:

    - Mae'n anodd datrys eu sefyllfa, neu'n anodd i bobl ei deall.
    - Maen nhw'n wynebu rhwystrau wrth geisio codi llais drostyn nhw'u hunain neu roi eu tystiolaeth eu hunain a allai wella'u sefyllfa.
    - Does dim digon o wybodaeth yn cael ei chasglu a allai helpu pobl i ddeall neu reoli eu sefyllfa nhw'n well.
    - Maen nhw'n dibynnu ar asiantaethau allanol i gael cymorth i ddatrys eu problemau.

2) Er bod y diffiniad presennol o ddigartrefedd yn un eang, gallai'r gyfraith a gwasanaethau presennol wneud mwy i ganfod pob math o ddigartrefedd. I bobl sydd â nodweddion gwarchodedig a allai fod yn profi digartrefedd mewn ffyrdd penodol, gallai hyn olygu'r canlynol:
    - Efallai nad yw'r diwylliant sy'n darparu gwasanaethau ac sy'n rhoi'r gyfraith ar waith yn deall anghenion grwpiau penodol yn iawn.
    - Efallai nad oes gan y system yr hyblygrwydd i ddelio â rhai o'r amgylchiadau y mae pobl sydd â nodweddion gwarchodedig yn eu hwynebu, yn enwedig y cymhlethdodau a'r union sefyllfaoedd sy'n gysylltiedig â chroestoriadedd.
    - A'r system dan bwysau mawr, efallai na fydd anghenion y cymunedau hyn yn cael eu canfod.
    - Mae awgrymiadau o'r gwaith ymchwil hwn y gall 'digartrefedd cudd' fod yn uwch ymhlith rhai grwpiau o gyfranogwyr, sy'n golygu bod rhoi diwedd ar bob ffurf ar ddigartrefedd yn anodd.
3) Ymhlith y problemau penodol sy'n ymwneud â llety dros dro mae:
    - Diffyg gwasanaethau a llety sy'n addas yn benodol i ddiwylliant grwpiau niferus.

- Nid yw pobl yn dweud eu bod nhw'n ddigartref a/neu'n cael llety dros dro gan nad yw hynny'n ateb eu hanghenion.
- Efallai fod y ffactorau hyn yn cyfrannu at ddigartrefedd cudd.

4) I ddatblygu ar y gyfraith bresennol, gallai fod cyfleoedd i adolygu'r canlynol:
    - Ystyried nodweddion gwarchodedig a'u perthynas â'r anghenion sy'n dal i gael blaenoriaeth.
    - Sut mae'n ymddangos bod rheolau sy'n ymwneud â chysylltiadau lleol yn effeithio ar ddyrannu eiddo a phwy gallai hynny effeithio'n negyddol arnyn nhw.
    - Ac ystyried y pwyslais ar wasanaethau sy'n ystyriol o rywedd, sut fath o gyfraith fyddai cyfraith sy'n ystyriol o drawma a rhywedd?

5) Gyda'r nod o roi diwedd ar ddigartrefedd, dylid adolygu'r gyfraith sy'n gorgyffwrdd i ddeall y canlynol:
    - A oes modd rhoi diwedd ar ddigartrefedd heb ddiwygio'r gyfraith ym maes mewnfudo?
    - Sut gallai'r system les atal digartrefedd?
    - A oes cyfleoedd i sicrhau bod y gyfraith yn cyd-fynd â'r gyfraith bresennol ym maes tai yng Nghymru, fel y Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru)?
    - Sut bydd newidiadau i Ddeddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd yn effeithio ar ddigartrefedd yng Nghymru?
    - A allai rhoi dyletswyddau ehangach i gyrff eraill (a chyrff cyhoeddus yn enwedig) helpu i atal digartrefedd?
    - Sut gall y gyfraith gyfrannu at greu cyflenwad digonol o gartrefi sy'n atal digartrefedd ac yn gallu rheoli ychydig bach o ddigartrefedd?

## Cyflwyniad

Yn 2021, fel rhan o'r Rhaglen Lywodraethu, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i '[dd]iwygio cyfraith tai a gweithredu argymhellion y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd i ddiwygio gwasanaethau digartrefedd yn sylfaenol er mwyn canolbwyntio ar atal ac ailgartrefu'n gyflym.' I helpu gyda'r broses hon, sefydlodd Llywodraeth Cymru banel o arbenigwyr i adolygu'r gyfraith bresennol ym maes tai a digartrefedd ac i wneud argymhellion cyn cyflwyno Papur Gwyn. I sicrhau bod profiadau pobl o ddigartrefedd yn rhoi sail i'r argymhellion hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda phartneriaid gan gynnwys Cymorth Cymru, Plant yng Nghymru a Tai Pawb.

Nod yr adroddiad hwn yw canfod profiadau pobl sydd â nodweddion gwarchodedig yng Nghymru o ddigartrefedd. Wrth sôn am ddigartrefedd, rydyn ni'n defnyddio diffiniad Llywodraeth Cymru:

*'Ystyr digartrefedd yw sefyllfa lle nad oes gan berson lety neu lle nad yw ei ddaliadaeth yn sicr. Cysgu allan yw pen mwyaf gweledol a difrifol y sbectrwm digartrefedd, ond mae digartrefedd yn cynnwys unrhyw un sydd heb lety, unrhyw un sy'n methu â chael mynediad i'w lety neu unrhyw un nad yw'n rhesymol iddo barhau i feddiannu llety. Byddai hyn yn cynnwys gorlenwi, 'mynd o soffa i soffa', dioddefwyr camdriniaeth a llawer o senarios eraill. Mae rhywun hefyd yn ddigartref os yw ei lety'n strwythur symudol ac nad oes lle i'w osod.'*

### Cwmpas yr ymchwil

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn diffinio naw categori sy'n amddiffyn pobl yn gyfreithiol rhag i neb wahaniaethu yn eu herbyn. Yn hytrach na'u hystyried yn un gymuned o bobl, dylid ystyried y bobl hyn yn gymuned neu'n gymunedau eang o bobl sy'n wynebu heriau a phrofiadau gwahanol, ac efallai y bydd gan bobl eraill fwy nag un nodwedd warchodedig ac y byddan nhw'n wynebu rhwystrau ychwanegol yn sgil y croestorri hwn.

Wrth ddylunio'r gwaith ymchwil hwn, byddai hi wedi bod yn bosibl dewis grwpiau eang o bobl i gasglu profiadau ganddyn nhw. O ganlyniad, rydyn ni wedi ceisio hybu lleisiau pobl y gallai eu profiadau fod yn fwy penodol neu'n gudd o ganlyniad i'w nodwedd warchodedig, o ganlyniad i'r gyfraith, neu o

ganlyniad i sut mae'r ddau beth hyn yn plethu yn ei gilydd. Roedd y gwaith ymchwil hwn yn rhoi sylw penodol i'r canlynol:

- Ceiswyr lloches
- Ffoaduriaid
- Pobl anabl
- Cymunedau pobl Dduon a phobl leiafrifol
- Sipsiwn a Theithwyr
- Pobl hŷn
- Pobl LHDTC+

Er na wnaethon ni ymchwilio i sefyllfa menywod fel grŵp penodol, soniodd y cyfranogwyr am brofiadau penodol sy'n gysylltiedig â rhywedd, yn enwedig drwy'r ymchwil i gymunedau pobl Dduon a phobl leiafrifol a Sipsiwn a Theithwyr.

**<u>Methodoleg</u>**

Dilynodd y gwaith ymchwil hwn ddull ansoddol gan ddefnyddio grwpiau ffocws a chyfweliadau un-i-un lled-strwythuredig, yn dibynnu ar ddewis y cyfranogwyr. Cydnabuwyd unrhyw rwystrau y gallai pobl fod yn eu hwynebu wrth rannu profiadau.

Gan gydnabod y cyfyngiadau amser a'r anawsterau posibl a allai fod yn gysylltiedig ag ymwneud â phobl sydd â phrofiadau bywyd o'r materion hyn, fe wnaethon ni weithio gyda sefydliadau partner a oedd eisoes mewn cyswllt â chyfranogwyr posibl. Fe wnaeth y sefydliadau hyn ganfod a chyfweld pobl a rhoi'r data i Tai Pawb. Yr eithriad yn hyn o beth oedd yr ymchwil gyda ffoaduriaid a cheiswyr lloches, lle gwnaeth staff presennol Tai Pawb sy'n gweithio yn y maes hwn wneud ymchwil gyda chymorth Home4U. Dyma'r sefydliadau a weithiodd gyda ni fel partneriaid:

| Sefydliad | Y grŵp o gyfranogwyr |
|---|---|
| Action for Elders | Pobl hŷn |
| Y Prosiect Cyngor Anabledd | Pobl anabl |
| Sipsiwn a Theithwyr Cymru | Sipsiwn a Theithwyr |
| Tai Pawb | Ffoaduriaid |

| | |
|---|---|
| Tai Pawb/Home4U | Ceiswyr lloches |
| Women Connect First/Mela Cymru | Cymunedau pobl Dduon a phobl leiafrifol |

I helpu gyda'r gwaith uchod, fe wnaethon ni ddatblygu arolwg ar-lein ansoddol a ledaenwyd drwy'r cyfryngau cymdeithasol, cylchlythyron a rhanddeiliaid perthnasol. Roedd y cwestiynau a ofynnwyd drwy'r arolwg hwn yn weddol debyg i'r rheini a ofynnwyd yn y cyfweliadau a'r grwpiau ffocws, a'r nod oedd canfod gwybodaeth ychwanegol.

Mae'r **holl enwau** yn yr astudiaethau achos wedi'u newid er mwyn sicrhau nad oes modd adnabod y cyfranogwyr.

Nifer y cyfranogwyr

Cymerodd cyfanswm o dri deg chwech o bobl ran yn y gwaith ymchwil hwn drwy'r cyfweliadau a'r grwpiau ffocws. Mae'r manylion isod:

Cyfweliadau/Grwpiau Ffocws

| **Y grŵp o gyfranogwyr** | **Nifer** |
|---|---|
| Pobl hŷn | 2 |
| Pobl anabl | 3 |
| Sipsiwn a Theithwyr | 5 |
| Ffoaduriaid | 8 |
| Ceiswyr lloches | 9 |
| Cymunedau pobl Dduon a phobl leiafrifol | 9 |

Mae templed y cyfweliadau i'w weld fan hyn.

Mae templed y grŵp ffocws i'w weld fan hyn.

Yr arolwg

Cymerodd cyfanswm o ugain o bobl ran yn yr arolwg ar-lein ym mhob categori. Fel y byddai rhywun yn ei ddisgwyl, ni wnaeth rhai o'r cyfranogwyr ddatgelu i

ba grŵp roedden nhw'n perthyn, tra dywedodd pobl eraill fod ganddyn nhw fwy nag un nodwedd warchodedig.

**Astudiaethau achos**

Pan oedd hynny'n bosibl, mae astudiaethau achos wedi'u cynnwys i helpu i ddangos profiadau pobl. Efallai y bydd rhai o'r rhain yn peri gofid, felly rydyn ni'n argymell bod pobl yn eu darllen â gofal.

Gwaith ymchwil sy'n bodoli'n barod

Yn 2022, cynhaliodd Tai Pawb ymchwil a edrychai ar brofiadau pobl LHDTC+ o ddigartrefedd yng Ngwent a phrofiadau ceiswyr lloches sy'n byw yng Nghymru. Roedd hynny fel rhan o waith y comisiwn annibynnol ar ddyfodol cyfansoddiadol Cymru. Ac ystyried pa mor berthnasol yw'r gwaith ymchwil hwn, rydyn ni wedi defnyddio profiadau a straeon ohono i ehangu ystod y grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig y gwnaethon ni siarad â nhw.

Anawsterau a chyfyngiadau

Roedd y gwaith ymchwil hwn yn wynebu nifer o anawsterau, yn enwedig o ran ymwneud â phobl a oedd wedi profi digartrefedd ac a oedd yn barod i rannu eu straeon. Llwyddwyd i oresgyn hyn yn rhannol drwy weithio gyda phartneriaid a oedd wedi sefydlu perthnasau ers tro â chyfranogwyr, ond roedd hi'n dal yn dalcen caled ymwneud â chyfranogwyr o bob grŵp. Roedd hyn yn rhannol o ganlyniad i brinder amser, a'r gallu cyfyngedig oherwydd hynny i ganfod cyfranogwyr a gwneud y trefniadau perthnasol. Er i'r dull a ddefnyddiwyd gryfhau'r gwaith ymchwil, fe olygodd hefyd fod y gwaith maes wedi'i wneud gan grwpiau gwahanol mewn amgylchiadau gwahanol. O ganlyniad, ceir amrywiaeth yn y ffordd y mae gwahanol adrannau'r adroddiad yn cael eu cyflwyno (h.y., nifer y dyfyniadau uniongyrchol).

Un bwriad yn wreiddiol oedd cynnal ymchwil i brofiadau mudwyr o'r Undeb Ewropeaidd/Ardal Economaidd Ewrop. Serch hynny, er i ni gysylltu â nifer o grwpiau, nid oedd hyn yn bosibl. Er i ni gael ymatebion i'r arolwg ar-lein gan dri o bobl a oedd â'r cefndir hwn, nid oedden ni'n teimlo bod hynny'n rhoi digon o dystiolaeth o'i gymharu â gweddill y gwaith ymchwil a geir yn yr adroddiad hwn. Pe bai rhagor o waith ymchwil yn cael ei wneud i helpu i ddatblygu'r

Papur Gwyn, rydyn ni'n argymell rhoi blaenoriaeth i farn a phrofiadau'r grŵp hwn.

Er i'r ymchwil geisio casglu a chyflwyno enghreifftiau o brofiadau bywyd grwpiau amrywiol, mae maint bychan yr ymchwil yn golygu nad yw'n gynrychioladol o brofiadau ehangach y grwpiau hyn o ddigartrefedd. Gan hynny, dylid bod yn ofalus wrth ymdrin â'r themâu a'r canfyddiadau. Er bod y gyfraith yn gyson drwy Gymru, gallai'r ffordd mae honno'n cael ei rhoi ar waith a gallu pobl i gael gwasanaethau fod yn wahanol. Er enghraifft, gallai hyn fod yn wir wrth ystyried profiadau pobl sydd â nodweddion gwarchodedig sy'n byw mewn ardaloedd gwledig.

## Pobl anabl

Mae'r gyfradd gyflogaeth yn is ymhlith pobl anabl ac maen nhw'n aml yn gweithio am lai o arian, ond gan wynebu mwy o gostau ar yr un pryd oherwydd eu nam. Mae hyn yn cyfrannu at eu risg o wynebu digartrefedd. Yn ôl gwerthusiad gan Crisis o'u prosiect Sky Light, roedd 39% o'r bobl roedden nhw'n eu cynorthwyo yn anabl. Mae ymchwil hefyd yn dangos bod niferoedd mawr o bobl anabl mewn llety dros dro. Gwelodd ymchwil blaenorol gan Tai Pawb fod problemau sylweddol yn gysylltiedig â pha mor effeithiol yw systemau dyrannu mewn perthynas ag anabledd.

Gall profiadau o ddigartrefedd fod yn gudd hefyd ymhlith pobl anabl, ac o natur fwy penodol. Drwy'r profiadau o ddigartrefedd a ddaeth i'r amlwg drwy sgyrsiau'r Prosiect Cyngor Anabledd, gwelwyd bod heriau penodol a chyffredinol wrth geisio cartrefu pobl yn iawn. Roedd y sgyrsiau hyn hefyd yn dangos yr heriau sy'n wynebu'r gyfraith a gwasanaethau presennol wrth ymdrin â phobl anabl.

### Astudiaeth achos – Diffyg cymorth ac edrych ar incwm ochr yn ochr ag anabledd

Mae gan Anna esgyrn brau a phrofiadau o boen cronig. Roedd hi'n byw gyda'i phartner hirdymor, ond wrth wella yn yr ysbyty ar ôl torri'i choes, penderfynodd wahanu a gwerthu cartref y teulu. Wrth gael ei rhyddhau o'r ysbyty, **ni chynigiwyd unrhyw gymorth iddi**, a doedd ganddi ddim opsiwn ar

wahân i symud i fyw gyda'i merch. Treuliodd Anna'r 18 mis nesaf yn cysgu ar soffa. Yn ystod y cyfnod hwn, er bod staff y cyngor yn deall ei phroblem, doedd dim modd iddyn nhw helpu. Gwnaeth Anna 'gais' am nifer o lefydd a oedd yn cael eu gosod yn gymdeithasol, ond heb fod yn llwyddiannus. **"Da i ddim"** oedd ei disgrifiad o'r sefydliad a oedd yn marchnata'r llefydd hyn (nid y cyngor), gydag agwedd a awgrymai y dylai Anna **"beidio â thrafferthu"** cysylltu â nhw. Nid oedd unrhyw eiddo addas ar gael ar y farchnad rhentu preifat, nes i Anna ystyried Air BnB yn y pen draw. Pan werthwyd cartref gwreiddiol teulu Anna, yn hytrach na gwella'i sefyllfa, gwaethygu wnaeth pethau, oherwydd ystyriwyd bod yr arian a gafodd hi'n "sylweddol". Golygai hynny fod Anna mewn band is ar y rhestr aros am dai cymdeithasol. A hithau'n 70 oed ac yn cael incwm drwy fudd-daliadau'n unig, nid oedd modd i Anna gael morgais ac ni allai fforddio prynu eiddo addas. Yn hytrach nag ystyried ei nam, ystyriwyd bod yr arian a gafodd hi drwy werthu'r tŷ yn bwysicach wrth asesu sut i'w chartrefu, a theimlai Anna bod hyn yn achos o "wahaniaethu anuniongyrchol" . Yn y pen draw, gyda chymorth elusen leol ac ymyriad Pennaeth Tai, symudodd Anna i eiddo a oedd yn cael ei osod yn gymdeithasol. Wrth gnoi cil am ei phrofiadau, meddai Anna: "Pe bai rhywun wedi gwrando ac wedi edrych ar y darlun ehangach, efallai y byddai gwell dealltwriaeth wedi arwain at broses gyflymach."

<u>Diffyg ymwybyddiaeth o gyflyrau iechyd a'u heffaith</u>

Soniodd yr holl gyfranogwyr a gafodd eu cyfweld am broblemau sy'n gysylltiedig â sut mae awdurdodau lleol yn casglu data. Roedden nhw'n teimlo bod y ffurflenni sy'n cael eu defnyddio i atgyfeirio yr un fath i bobl anabl a phobl nad ydyn nhw'n anabl. Roedd peidio â chasglu gwybodaeth am sut roedden nhw'n anabl yn arwain at rwystredigaeth â'r system ac at deimlad cyffredinol nad oedd pobl yn deall eu hachosion yn iawn nac yn gwrando arnyn nhw'n iawn. I wneud pethau'n waeth, roedd achosion pan deimlai pobl fod y cyngor wedi anwybyddu adroddiadau gan therapyddion galwedigaethol annibynnol. Yn ogystal ag atal pobl rhag eirioli drostyn nhw'u hunain, roedd yn golygu bod llai o ddealltwriaeth o amgylchiadau unigolion. Mewn un achos, fe wnaeth cyngor anwybyddu adroddiad yn gwbl agored, gan mai dim ond adroddiadau yr oedden nhw wedi'u comisiynu'u hunain gan therapyddion galwedigaethol yr oedden nhw'n barod i'w derbyn.

Diffyg gwybodaeth addas a data am eiddo

Mewn un achos, roedd diffyg data am lefel hygyrchedd eiddo wedi golygu bod cartref a ddiystyrwyd gan staff cymdeithas dai mewn gwirionedd yn addas. Gallai gwell data gorfodol helpu i sicrhau bod llety mwy addas yn cael ei ddarparu nawr, yn ogystal â golygu bod modd cynllunio'n well at lety sy'n cyd-fynd â'r anghenion lleol yn y dyfodol. Thema o bwys ym mhrofiadau'r holl gyfranogwyr oedd effaith diffyg llety addas ym mhob deiliadaeth ar eu hamgylchiadau. Roedd y cyfuniad hwn o ddiffyg data a diffyg cyflenwad yn golygu bod pobl yn cael profiadau hwy o ddigartrefedd ac o fyw mewn llety anaddas.

Astudiaeth achos – Anawsterau wrth adael cartref y teulu

Mae gan Jayne barlys yr ymennydd ac mae hi'n defnyddio cadair olwyn bob dydd. Mae hi'n 34 oed ac mae hi wastad wedi byw gyda'i rhieni. Ers tro, mae Jayne wedi dymuno gadael cartref y teulu i fod yn fwy annibynnol. Cysylltodd Jayne â'r tîm Dewisiadau Tai[1] a'r tîm llety dros dro, ond ni allai'r naill na'r llall helpu. Pan wnaeth gais, cafodd ei rhoi yn y band isaf o ran blaenoriaeth, a dim ond **ar ôl i'w meddyg ymyrryd** y cafodd ei chodi i'r band canol. Aeth amgylchiadau Jayne yn fwy bregus pan gollodd enillydd cyflog y teulu ei swydd. Ni allai ei rhieni fforddio byw yn y tŷ a oedd wedi'i addasu'n arbennig, na fforddio prynu eiddo tebyg a oedd yn ateb anghenion Jayne. Yn y pen draw, pan orfodwyd ei rhieni i roi iddi ei **"rhybudd"** i adael cartref y teulu, symudwyd Jayne i'r categori uchaf. Aeth Jayne i **weld yr holl opsiynau posibl ar gyfer llety dros dro,** hyd yn oed a hithau'n gwybod bod y llety'n anaddas i'w hanghenion cyn iddi ymweld. Nid oedd Jayne yn teimlo bod y cyngor a'r gymdeithas dai yn gwahaniaethu yn ei herbyn, ond roedd hi'n teimlo **"nad oedden nhw'n gwrando"** ac **"nad oedden nhw'n gwneud eu gwaith".** Gan bod ganddi barlys yr ymennydd, roedden nhw'n tybio na allai hi wneud dim byd. Cafodd Jayne adroddiad gan therapydd galwedigaethol annibynnol, ac roedd hi'n **"argyhoeddedig"** eu bod nhw wedi anwybyddu hwn ac mai dim ond dal ati i gysylltu â staff y cyngor a wnaeth wahaniaeth wrth ddod o hyd i lety cymdeithasol ar osod iddi yn y pendraw. Wrth i Jayne ymgartrefu yn ei chartref newydd, mae hi wedi gorfod newid ei budd-daliadau lles, o Gredydau Treth i'r

[1] Mae gan bob cyngor yng Nghymru dîm dewisiadau tai sy'n rhoi cymorth a chyngor i unrhyw un sy'n ddigartref neu sy'n wynebu risg o fod yn ddigartref.

Credyd Cynhwysol, ac mae hynny'n cymryd sbel. Yn y cyfamser, mae ganddi £350 yn llai bob mis yn ei phoced.

Rhoi blaenoriaeth i ffactorau eraill

Mynegodd holl gyfranogwyr yr ymchwil rwystredigaeth â'r system, gan sôn am ddiffyg dealltwriaeth. Yn benodol, nid oedd digon o flaenoriaeth wedi'i rhoi i'r ffaith eu bod nhw'n anabl, cyn ffactorau eraill. Yn hytrach, pan fyddai amgylchiadau rhieni neu sefyllfaoedd ariannol unigolion yn newid, roedd y rhain yn ymddangos yn bwysicach, er nad oedden nhw'n newid sefyllfa nac anghenion yr unigolion yn sylweddol. Soniodd un cyfranogwr am fod ar y rhestr aros am dai cymdeithasol am gyfnod hir (o leiaf 13 o flynyddoedd) ac am fyw mewn sawl eiddo anaddas gwahanol, gan achosi damweiniau mewn rhai achosion. Er ei bod hi mewn cyswllt rheolaidd ac yn gwneud cais am wahanol eiddo, dim ond a hithau'n 60 oed y newidiodd ei sefyllfa ac y daeth eiddo ar gael. Gadawodd hyn hi'n teimlo bod ei sefyllfa wedi'i datrys bellach "gan eu bod nhw wedi ticio mwy nag un blwch".

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ["y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol"] yn rhoi fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwella llesiant pobl y mae angen gofal a chymorth arnyn nhw, ynghyd â'u gofalwyr, er mwyn trawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Yn ystod y gwaith ymchwil hwn, trafododd y Panel o Arbenigwyr pa mor berthnasol oedd y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol i ddigartrefedd a phobl anabl. Ar ôl trafod â'r Prosiect Cyngor Anabledd, ym mhob un o'r tri achos, gwelwyd bod y Trydydd Sector yn rhoi gofal a chymorth i'r bobl anabl ac i aelodau eraill o'u teuluoedd. Gan nad oedd yr unigolion yn dibynnu ar 'weithwyr cymdeithasol' nac ar weithwyr proffesiynol eraill o ddydd i ddydd, nid oedd neb ohonyn nhw wedi ceisio ymwneud ag unrhyw un o'r bobl sy'n gweithio o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol i'w helpu i ddatrys eu problemau tai unigol.

Gwelwyd y canlynol wrth i'r Prosiect Cyngor Anabledd wneud dadansoddiad pellach o'r Ddeddf:

| Datganiadau yn y Ddeddf | Sylwadau |
|---|---|
| Diffyg cyfeiriad at ddigartrefedd yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol | Gan nad oes cyfeiriad penodol at “ddigartrefedd” yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol, nid yw’n amlwg sut mae’r Ddeddf yn uniongyrchol berthnasol i ddigartrefedd ac anghenion pobl anabl. |
| Mae’r cyflwyniad i’r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol (adran 1(3)(h) “yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol greu a chynnal cofrestrau o bobl â nam ar eu golwg, pobl â nam ar eu clyw a phobl anabl eraill” | Nid yw’n glir bod hyn yn cael ei gyflawni mewn ffordd sy’n cynnwys pawb sy’n anabl. Hyd yn oed os byddan nhw’n gwybod am ofyniad o’r fath, ni fydden nhw’n sicr pa fanteision fydden nhw’n eu cael drwy fod ar gofrestr o fath. Wrth ystyried y gofrestr, nid yw adran 18 yn cynnwys tai’n benodol, er bod tai yn un o’r prif ffactorau sy’n dylanwadu ar ansawdd bywydau pawb. |
| O dan adran 15(2)(d), rhaid i awdurdodau lleol drefnu i ddarparu amrywiaeth o wasanaethau a fydd yn lleihau effaith y rhwystrau y mae pobl anabl yn eu hwynebu. | Nid yw’n glir a yw gwasanaethau o’r fath yn cynnwys llety pe bai rhywun yn ddigartref, neu pe bai posibilrwydd o hynny. |
| Yn y rhan fwyaf o lefydd yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol (e.e. adrannau 40, 42, 43, 81), mae’r gair “plentyn” yn rhagflaenu’r gair “anabl”. | Mae llawer mwy o oedolion anabl na phlant anabl. Gan hynny, ni theimlir bod y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol yn berthnasol wrth ystyried digartrefedd ymhlith oedolion anabl. Er bod cymorth ar gael at anghenion gofal a chymorth, efallai na fydd hyn yn amlwg i’r sector tai nac yn angenrheidiol mewn rhai achosion. |

Mae'r Ddeddf yn cyfeirio at reoliadau hefyd.

| Y rheoliad a'r gofyniad | Sylwadau |
|---|---|
| "Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesu) (Cymru) 2015": Mae'r rhain yn ystyried dyletswyddau awdurdodau lleol i asesu anghenion gofal a chymorth oedolion, plant a gofalwyr. | Nid yw gofal a chymorth o'r fath yn ymestyn yn amlwg i ddarparu tai mewn achosion o ddigartrefedd neu ddigartrefedd posibl.<br><br>Nid yw'r gair "digartref" yn ymddangos yn y Rheoliadau hyn. |
| "Rheoliadau Gofal a Chymorth (Dewis o Lety) (Cymru) 2015:" Gall awdurdodau ateb anghenion gofal a chymorth unigolyn drwy ddarparu llety gan gynnwys y llety sy'n cael ei ffafrio. | Byddai'r costau y mae cyngor yn gallu neu'n barod i'w talu yn cyfyngu ar ba mor dderbyniol yw unrhyw lety i bobl anabl fyw ynddo am gyfnod hir.<br><br>Nid yw'r gair "digartref" yn ymddangos yn y Rheoliadau hyn. |

## Sipsiwn a Theithwyr

Y llynedd, dangosodd gwaith ymchwil a edrychai ar orlenwi ac ethnigrwydd i ba raddau roedd gorlenwi'n broblem ymhlith cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Yn ôl ymchwiliad gan y Senedd, ceir diffyg cyflenwad addas o lety, a cheir safleoedd y mae "dirfawr angen eu hatgyweirio". Mae'r rheini'n brin o gyfleusterau sylfaenol ac yn aml wedi'u lleoli ymhell o amwynderau a ger ffyrdd A prysur. Mae'r cyfraddau cam-drin domestig, sy'n gallu cyfrannu at ddigartrefedd, hefyd yn gallu bod yn uwch ymhlith cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Mae adran 101 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol gynnal asesiad o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr sy'n byw yn eu hardaloedd neu'n symud i'w hardaloedd. Yn ôl ymchwil gan y Senedd, mae'r dystiolaeth yn dangos bod y ddyletswydd hon yn cael ei chyflawni'n anghyson. Mae Deddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd, a basiwyd yn ddiweddar, hefyd yn golygu bod risg o wrthdaro rhwng cymunedau teithwyr a'r gyfraith pan fydd diffyg llety addas. Gan gydnabod

hyn, mae Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn “bod angen llety diogel a diwylliannol briodol ar unigolion er mwyn iddynt ffynnu mewn rhannau eraill o’u bywydau, ac er mwyn mynd i’r afael â’r prinder safleoedd a’r llety o ansawdd gwael sydd ar gael i Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru”.

Dyma’r cyd-destun wrth i Sipsiwn a Theithwyr Cymru siarad â chyfranogwyr am eu profiadau o ddigartrefedd.

<u>Astudiaeth achos – Diffyg tosturi a llety dros dro addas</u>

Mae Kathleen yn fam i chwech o blant rhwng 9 mis oed a 9 oed. Roedd hi’n arfer byw ar safle Teithwyr gyda thad y plant. Dioddefodd Kathleen o **gam-drin domestig** dan law tad y plant a chafodd ei thaflu o’u cartref. Doedd dim plot sbâr ar y safle yr oedd Kathleen yn byw arno, lle roedd y rhan fwyaf o deulu ei phartner yn byw hefyd, felly roedd byw yno’n anodd iawn.

Wrth gysylltu â’r tîm dewisiadau tai allan o oriau, dywedwyd wrth Kathleen **bod ganddi ormod o blant** a bod angen iddi ddod o hyd i rywle i’r plant fynd neu byddai angen i’r Gwasanaethau Cymdeithasol ymyrryd. Er iddi gael cynnig lle mewn lloches frys, byddai hynny wedi golygu **colli ei phlant, felly gwrthododd hi’r cynnig.** Yn y diwedd, cynigiwyd lle mewn hostel i Kathleen a’r plant, ond roedd hwn yn anaddas gan fod pobl yn cymryd cyffuriau’n agored yno. Ar y pwynt hwn, dywedodd y tîm dewisiadau tai wrth Kathleen i stopio ffonio (roedd hi’n ffonio ddwywaith y dydd gan ei bod hi mewn sefyllfa gwbl anobeithiol). Fe ddywedon nhw wrthi am roi’r gorau i ffonio, gan nad oedd ganddyn nhw le yn unman i’w gynnig iddi gan fod ganddi chwech o blant. Gwnaeth hyn i Kathleen **deimlo’n “ddrwg iawn”** a drachefn dywedwyd wrthi **y gallen nhw gymryd ei phlant oddi arni** gan nad oedd ganddi gartref iddyn nhw. I wneud pethau’n waeth, roedd gwahanol gynghorwyr yn rhoi gwahanol wybodaeth wrth iddi ffonio’r llinell gyngor. Yn y pen draw, cynigiwyd **llety dros dro mewn hostel** i Kathleen, ac mae hi a’r teulu’n hapus yno, yn falch o’r cymorth maen nhw’n ei gael gan y staff, ac yn hoffi’r gweithgareddau sy’n cael eu darparu i’r plant.

Wrth gnoi cil am y broses, roedd Kathleen yn teimlo bod agweddau pobl yn y cyngor wedi newid pan ddatgelodd hi **ble roedd hi’n arfer byw** (safle Teithwyr) a’i bod hi wedi cael ei thrin yn wahanol wedyn.

Profiadau pobl o lety dros dro

Roedd profiadau'r cyfranogwyr o lety dros dro yn rhai cymysg. Roedd rhai wedi gwrthod llety dros dro mewn hosteli gan na fyddai hynny'n ateb eu hanghenion: "Sipsi ydw i ac rydw i wedi byw ar safle carafanau gydol fy oes." Roedd pobl eraill wedi cael profiadau cadarnhaol mewn rhai mathau o lety dros dro oherwydd y cymorth oedd yn cael ei gynnig, gan gynnwys gweithgareddau i blant. Her arall i fwy nag un o'r cyfranogwyr oedd dod o hyd i lety oherwydd maint eu teuluoedd. Mae'n ymddangos bod diffyg llety dros dro mwy o faint yn golygu bod pobl yn ddigartref am gyfnodau hwy yn yr achosion hyn. Efallai hefyd fod diffyg llety dros dro sy'n addas yn ddiwylliannol (h.y. llety sy'n galluogi Teithwyr i fyw mewn trelar yn hytrach na thŷ brics a morter traddodiadol) hefyd wedi golygu bod pobl yn ddigartref am gyfnodau hwy. O edrych ar y darlun ehangach, gallai hynny fod yn un o achosion digartrefedd cudd.

Wrth ddod yn ddigartref, rhoddwyd un cyfranogwyr mewn gwesty gyda'i gi, yng nghefn gwlad, lle roedd yn teimlo'n gyfforddus. Serch hynny, heb unrhyw esboniad, cafodd ei symud i rywle a ddisgrifiodd fel "gwesty mechnïaeth". Doedd dim hawl ganddo i gadw'i gi; roedd yr ystafell yn fechan ac heb ffenestr; ac roedd y gegin yn cau am 8pm. Arweiniodd hyn at sbarduno PTSD hirhoedlog. Yn y pen draw, ar ôl cymorth gan y Tîm Cymorth Iechyd Meddwl a Sipsiwn a Theithwyr Cymru, symudwyd y cyfranogwr i'r gwesty blaenorol.

Wrth gnoi cil am y profiad, roedd yn teimlo na wnaeth y cyngor "ystyried fy anghenion na beth oedd yn addas, ac na wnaethon nhw ystyried fy mhroblemau iechyd meddwl chwaith". Gwnaed y sefyllfa'n waeth iddo gan ei fod yn gwybod bod rhywun nad oedd yn Deithiwr wedi'i roi mewn carafán statig heb iddo gael cynnig yr opsiwn hwnnw'i hun.

Dryswch ynghylch olyniaeth

Dywedwyd bod olyniaeth ar blotiau yn ffactor a oedd yn cyfrannu at ddigartrefedd. Roedd un cyfranogwr wedi byw ar lain ei mam drwy gydol ei hoes. Mae ganddi dri o blant rhwng 2 a 6 oed a gŵr sydd â pharlys yr ymennydd, ac roedden nhw wedi bod ar y rhestr aros am lain yno am 8 mlynedd. Roedd y cyfranogwr wedi osgoi defnyddio gwasanaethau cymorth digartrefedd yn fwriadol, gan ei bod eisiau aros ar y safle lle roedd hi wastad

wedi byw. Yr haf diwethaf, bu farw ei nain (a oedd wedi byw ar y llain gyferbyn i'w mam), ac er ei bod hi'n credu y byddai hi wedi cael y plot, dywedodd y cyngor wrthi y byddai hwnnw'n cael ei roi i bobl eraill a oedd wedi'u cofrestru'n ddigartref. Roedd ewythr y cyfranogwr yn byw ar y plot hefyd, ac roedd hi'n gobeithio y gallai barhau i fyw yno gyda'i theulu, ond gwrthododd y cyngor hyn. Heb unman i osod ei charafán, dechreuodd y cyfranogwr deithio, ond dychwelodd gartref gan ei bod hi'n hiraethu am ei theulu, ond heb allu dod o hyd i le i aros yn unman. Mae hi bellach ar lain ei mam (heb ganiatâd); dydy hi ddim yn gallu agor y ffenestri gan fod y carafanau mor agos at ei gilydd; ac mae'r warden wedi cael gwybod. Yn ei geiriau hi'i hun, "Does gen i ddim cynifer o opsiynau â phobl sydd wedi ymgartrefu mewn tai, gan na fyddwn i'n derbyn tŷ traddodiadol... Rydw i ar hyn o bryd yn ddigartref."

Neb yn clywed eu lleisiau

Roedd teimlad cyffredinol o anfodlonrwydd â'r ffordd roedd cynghorau'n delio â sefyllfaoedd y rhan fwyaf o gyfranogwyr. Dywedodd rhai fod modd dod o hyd i atebion llety gwell ac atebion cyflymach pan fyddai sefydliadau annibynnol neu sefydliadau sy'n eirioli yn ymyrryd. Nid yw'n glir ai cyd-ddigwyddiad yw hun, ynteu a yw hynny'n newid agweddau pobl. Serch hynny, teimlai rhai cyfranogwyr nad oedd eu lleisiau'n cael eu clywed na'u anghenion yn cael sylw, neu nad oedden nhw'n cael eu trin yn deg o dan y system bresennol.

Deddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd

Mae Deddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd wedi cyflwyno pwerau newydd sy'n gwneud tresbasu'n drosedd ac sy'n galluogi'r heddlu i feddiannu cerbydau (cartrefi) os bydd pobl yn byw neu'n bwriadu byw ar dir preifat. Soniodd rhai cyfranogwyr am yr anawsterau y mae'r Ddeddf hon eisoes yn eu hachosi iddyn nhw. Dywedodd un unigolyn fod y gyfraith yn golygu "nad yw fy nheulu'n gallu teithio fel o'r blaen" a'u bod nhw'n gorfod stopio ar dir y teulu (safleoedd preifat, tai neu y tu allan i blotiau'r cyngor). Er bod ymchwilio i effaith y Ddeddf hon y tu hwnt i gwmpas y gwaith ymchwil hwn, mae'n werth nodi sut gallai'r gyfraith hon arwain at gynnydd mewn digartrefedd ymhlith cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Ystyried cartrefi sy'n addas yn ddiwylliannol

Ymhlith yr holl gyfranogwyr y siaradon ni â nhw, nid yw'n syndod nad oedd un ateb pendant i ddatrys eu sefyllfa. Er bod anhoffter cyffredinol o "frics a mortar", roedd barn pobl yn amrywio. Roedd rhai eisiau unrhyw le diogel i fyw ynddo i allu magu'r plant yn normal, tra bo eraill yn ffafrio byw ar safle Teithwyr presennol lle roedd cysylltiad teuluol neu fwy o ofod a'r gallu i grwydro a chreu cysylltiad â chefn gwlad. Ac ystyried cynnwys Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, mae'n werth tynnu sylw at hyn mewn perthynas ag unrhyw newidiadau i'r gyfraith yn y dyfodol a'r hyn y gellir ei ystyried yn addas. Gallai ymwneud ymhellach â chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr fod yn fodd o ddeall hyn yn well.

## Pobl Hŷn

Mae adroddiad Cyflwr y Genedl Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru 2021 yn awgrymu bod 20% o bobl hŷn Cymru yn byw mewn tlodi incwm, gyda chynnydd o 98% yn nifer y bobl dos 60 oed sy'n cael y Credyd Cynhwysol ers y pandemig. Er nad yw'r ffigurau ar gael yng Nghymru, mae ymchwil gymaradwy yn Lloegr yn datgan bod 2 filiwn o bobl hŷn yn byw mewn cartrefi annigonol. Yn y cyfamser, mae nifer y bobl hŷn sy'n byw yn y sector rhentu preifat yn cynyddu, gan greu anawsterau wrth sicrhau bod cartrefi addas ar gael.

Cynhaliodd Action for Elders weithdy a chyfweliadau i ymchwilio i'r profiadau hyn o ddigartrefedd. Roedd hi'n arbennig o anodd ymwneud â'r grŵp hwn o bobl, a chan fod nifer y cyfranogwyr yn isel, cyflwynir y ddau gyfranogwr a gafodd eu cyfweld ar ffurf astudiaethau achos. Roedd y gweithdy'n ymwneud â phobl sy'n cael cymorth gan Action for Elders ar hyn o bryd, gan ganolbwyntio'n benodol ar broblemau sy'n wynebu pobl sy'n gadael y carchar.

Astudiaeth achos – Cartref anniogel a landlord gwael

Roedd Eva yn rhentu eiddo yn y sector rhentu preifat a oedd mewn **cyflwr cynyddol wael,** a dechreuodd hyn gael **effaith negyddol sylweddol ar ei hiechyd corfforol a meddyliol**. Er iddi roi gwybod i'r landlord am y problemau, fe anwybyddodd hwnnw bryderon yr unigolyn, a **throi'n ymosodol** pan gafodd ei herio gan aelodau o'r teulu a ffrindiau. Anogodd y teulu Eva i gysylltu â'r cyngor. Serch hynny, **nid oedd y cyngor yn gefnogol**, ac yn hytrach, rhoddwyd y baich ar yr unigolyn i ddatrys ei phroblemau â'r landlord neu i chwilio am lety

rhentu preifat arall. Roedd y naill opsiwn a'r llall yn ymddangos yn annhebygol, oherwydd **agwedd y landlord** a'r **diffyg eiddo gwahanol a oedd ar gael yn lleol.** Gan y barnwyd bod gan Eva lety, dywedwyd wrthi **nad oedd hi'n cael ei hystyried yn ddigartref** ac felly nad oedd hi'n gymwys i gael gwasanaeth tai cymdeithasol, gyda'i sgôr yn isel iawn ar y system bwyntiau. Ni chafodd hi gynnig **llety dros dro** ac ni thrafodwyd unrhyw ddewisiadau eraill posibl ar gyfer yr unigolyn, ond ac ystyried ei hoedran a'i phroblemau corfforol, byddai llety mewn hostel neu wely a brecwast wedi bod yn gwbl anaddas. Cymerodd **10 mlynedd** o fyw mewn llety cwbl anaddas, a hwnnw'n cael ei gynnal a'i gadw'n wael (ac yn beryglus ac yn lle amhosibl i fyw ynddo). Achosodd hyn broblemau iechyd meddwl gan gynnwys teimladau hunanladdol cyn i Eva gael cymorth gwleidydd lleol a chael ei hailgartrefu mewn eiddo cymdeithasol.

<u>Astudiaeth achos – Dioddefwr cam-drin domestig heb unman i fynd iddo</u>

Mae Phyllis wedi goroesi cam-drin domestig, a chafodd ei **cham-drin** gan ei phartner hirdymor am flynyddoedd lawer. Pan gysylltodd hi â'r cyngor i gael cymorth, **doedden nhw ddim yn sicr** beth fydden nhw'n gallu'i wneud i ddod o hyd i le iddi, ac ni allen nhw roi llety brys iddi. Roedd llety ar gael drwy Cymorth i Fenywod, ond roedd hwn yn **anhygyrch ac yn anaddas** i'w hanghenion. Teimlai Phyllis fod y llety wedi'i **ddylunio ar gyfer menywod iau** a phlant; roedd yn orlawn ac yn swnllyd, ac roedd nifer o risiau yno na allai hi'u dringo. Yn y pen draw, **cynigiodd Age Connect gymorth iddi,** gan helpu Phyllis i **gael llety addas.**

<u>Yr anawsterau sy'n wynebu cyn-droseddwyr</u>

Siaradodd Action for Elders hefyd â grŵp o bobl hŷn a oedd wedi gadael y carchar, gan drafod eu profiadau o ddigartrefedd. Roedd hynny'n gysylltiedig â'u hoedran yn ogystal â'u statws. Codwyd y materion canlynol:

- Efallai y bydd carcharorion wedi'u gwahardd rhag dychwelyd i'r ardal lle roedden nhw'n byw o'r blaen, sy'n golygu bod yn rhaid cysylltu â chynghorau eraill yn y gobaith y bydd un ohonyn nhw'n eu derbyn.
- Os bydd gan y carcharorion unrhyw namau gwybyddol neu gorfforol sy'n gofyn am gymorth i fyw yn annibynnol, mae'n annhebygol y bydd y cynghorau'n gallu rhoi lle iddyn nhw. Efallai hefyd na fydd cartrefi

gofal/nyrsio yn derbyn troseddwyr sydd wedi cael euogfarnau am droseddau penodol, gan gynnwys troseddau treisgar neu rywiol.

- Os yw'r carcharor yn anabl ac angen llety wedi'i addasu, mae'n annhebygol y bydd y cyngor yn gallu neu'n barod i roi lle iddo, yn sgil prinder stoc hygyrch addas.
- Os bydd angen pecyn gofal cymdeithasol gan y cyngor ar y carcharor er mwyn gallu byw yn annibynnol os/pan fydd llety addas ar gael, gall hi fod yn anodd asesu anghenion yr unigolion a chreu pecyn gofal, ac mae'r amserlenni sy'n rhan o hyn yn aml yn rhai hir iawn.
- Gan amlaf, mae'r hosteli a'r llety gwely a brecwast sy'n cael eu defnyddio'n gyson i gartrefu carcharorion ar barôl yn anaddas, yn anhygyrch, ac yn anniogel i garcharorion hŷn. At hynny, yn dibynnu ar y drosedd, efallai y bydd yr asesiad yn dweud nad yw'n ddiogel i'r carcharor hŷn ddefnyddio'r llety oherwydd y preswylwyr eraill.

## Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches

Yng ngwaith ymchwil Tai Pawb ym maes dyfodol cyfansoddiadol Cymru, gwelwyd bod profiadau o ddigartrefedd yn gyffredin ymysg ffoaduriaid, gyda phob un o bum cyfranogwr y grŵp ffocws wedi bod yn ddigartref ar ryw adeg. Mae'r ffigurau swyddogol yn brin yng Nghymru, ond yn ôl briff Seneddol yn Lloegr yn 2019, ar un noson a samplwyd yng ngaeaf 2017/18, ffoaduriaid oedd 48 o'r 169 o bobl a oedd angen llety brys. Yn ôl gwaith ymchwil a gynhaliwyd gan y Cyngor Ffoaduriaid, o blith 54 o ffoaduriaid a gafodd eu cyfweld, nid oedd neb wedi dod o hyd i rywle i fyw wrth iddyn nhw adael eu llety.

Er bod rhwystrau gwahanol yn wynebu ffoaduriaid a cheiswyr lloches, gan gynnwys wrth geisio cael gafael ar gyllid cyhoeddus, dangosodd ein sgyrsiau fod eu profiadau'n debyg, gyda phobl yn aml wedi cyrraedd man gwahanol ar yr un siwrnai. Gan hynny, at ddibenion yr adroddiad hwn, bydd y ddau grŵp yma'n cael eu cyflwyno gyda'i gilydd.

### Astudiaeth achos – Diffyg llety addas a diffyg tosturi

Cyrhaeddodd Abu y Deyrnas Unedig yn 2015 i geisio lloches, ar ôl treulio'r ddwy flynedd cyn hynny mewn gwersyll yn yr Eidal. Ar ôl datgan ei statws wrth gyrraedd, aeth i ganolfan gadw ger Gatwick cyn iddo gael ei ryddhau gyda **chyfarwyddyd i fynd i Gaerdydd.** Heb gôt nac arian, na syniad ble roedd

Caerdydd, cafodd help gan heddwas i gyrraedd yr orsaf drenau, a chyrhaeddodd Lety'r Gwasanaeth Cynnal Cenedlaethol i Geiswyr Lloches ["y Gwasanaeth Cynnal"] yng Nghaerdydd. Treuliodd Abu saith mis yno tan iddo gael ei roi mewn canolfan gadw eto gan y Swyddfa Gartref am bythefnos, cyn dychwelyd i eiddo'r Gwasanaeth Cynnal. Yn y pen draw, yn 2019, cafodd ganiatâd i aros a chael rhybudd o 28 diwrnod i adael ei lety. Cynghorwyd Abu i gysylltu â'r tîm dewisiadau tai:

*"Roedd y gwasanaeth dewisiadau tai'n wael. Fe ges i apwyntiad, ond bu'n rhaid i mi eistedd am oriau, gan deimlo'u bod nhw'n fy anwybyddu. Roedd yn llawer o straen, mae gen i drawma sy'n gysylltiedig â synau (rhyfel yn fy ngwlad enedigol, cysgu allan yn yr Eidal a thlodi), ac roedd y broses hon yn hynod o anodd."*

Am ddau fis wedyn, cysgodd Abu ar lawr yn ystafell ei ffrind yn llety'r Gwasanaeth Cynnal, cyn gadael gan fod hyn yn peri risg i'w gyfaill. Gofynnodd Abu am lythyr gan ei feddyg yn esbonio'i anghenion iechyd, **ond chafodd hwn ddim ei ystyried gan y gwasanaeth dewisiadau tai.** Treuliodd Abu amser wedyn naill ai'n cysgu mewn llety brys neu'n cysgu allan, gan nad oedd yn hoffi'r ffaith bod cyffuriau'n cael eu cymryd yn agored yn y llety. Heb gyfrif banc, ni allai hawlio budd-daliadau, ac weithiau byddai'r llety brys yn gwrthod lle iddo gan na fyddai modd talu amdano. Yn y pen draw, cynigiwyd lle mewn **hostel dros dro** i Abu, ac arhosodd yno am flwyddyn. Roedd pethau'n anodd yno, gyda'r cyfleusterau coginio a golchi dillad yn brin, a byddai eitemau personol yn cael eu dwyn. Helpodd Cyngor Ffoaduriaid Cymru Abu i agor cyfrif banc a gwneud cais am y Credyd Cynhwysol, ac mae sefyllfa Abu wedi gwella erbyn hyn. O dan y cynllun aduno teuluoedd, mae mam a mab Abu wedi ymuno ag o, ac mae'n byw mewn **cartref dros dro sy'n cael ei ddarparu gan Gymdeithas Tai Cymunedol Caerdydd**, wrth aros am gynnig parhaol. Mae ganddo swydd ac mae'n teimlo'n gadarnhaol am y dyfodol. Wrth gnoi cil am y broses, teimlai Abu mai cymorth ei ffrindiau a'i helpodd i oroesi'r broses.

<u>Methu ag atal digartrefedd</u>

Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn rhoi dyletswydd ar gynghorau i atal pobl rhag bod yn ddigartref o fewn 56 diwrnod i'r adeg pan gaiff y bygythiad ei ganfod. Serch hynny, pan fydd ceiswyr lloches yn cael statws ffoaduriaid, bydd y cymorth i geiswyr lloches yn dod i ben o fewn 28 diwrnod i hynny. Mae hyn yn

y golygu bod llai o amser i weithredu er mwyn atal digartrefedd. Dywedodd nifer o gyfranogwyr mai dyma'r prif reswm dros fod yn ddigartref. Wrth iddyn nhw aros am benderfyniad, awgrymodd rhai cyfranogwyr mai prin oedd y cymorth a oedd ar gael i'w paratoi at fywyd yn y Deyrnas Unedig neu dros y cyfnod rhybudd o 28 diwrnod. Wrth adael y llety, disgrifiodd cyfranogwyr sut cawson nhw'u hunain yn ddigartref, gan gysgu allan neu symud o soffa i soffa gyda ffrindiau pan oedd hynny'n bosibl.

Llety dros dro anaddas

Roedd profiadau pobl o lety dros dro (yn yr achosion hyn) ar y cyfan yn negyddol, ac yn cynnwys llety'r Gwasanaeth Cynnal yn ogystal â hosteli brys a dros dro. Gan sôn am gyflwr rhai o'r eiddo hyn, dywedodd un ceisiwr lloches wrthyn ni: "Roedden ni'n byw mewn hostel llawn cocrotsis am flwyddyn yn Lloegr, ac ar ôl cyrraedd Cymru, cawson ni dŷ lle roedd y wal wedi syrthio a lle roedd twll yn y llawr. Dywedodd y swyddog wrthyn ni y "byddai'n ein cicio ni allan ac yn cau'r drws" os nad oedden ni'n hoffi'r lle. Dywedodd y Swyddfa Gartref (a'r darparwr) fod popeth yn iawn a chafodd y swyddog fwy o hyfforddiant, ond does gan y llywodraeth ddim arian i atgyweirio pethau."

Roedd pethau'r un mor anodd mewn llety brys dro dro, gydag un cyfranogwr yn cael sach gysgu fudur i gysgu ynddi ar y llawr. Roedd y ffaith bod pobl yn cymryd cyffuriau'n agored yn rhwystr ac roedd nifer o gyfranogwyr wedi penderfynu cysgu allan oherwydd hynny. Drwy holl sbectrwm llety brys, soniodd y cyfranogwyr am ddiffyg cymorth gan y staff, yn amrywio o ddiffyg cydymdeimlad i ddiffyg dealltwriaeth o drawma i ymddygiad a oedd yn agored o ymosodol a bygythiol.

Diffyg cyflenwad o lety addas

Soniodd nifer o gyfranogwyr am y diffyg cartrefi addas i ffoaduriaid. Yn benodol, roedd hi'n anodd cael eiddo gydag un neu ddwy ystafell wely. I rai, roedd hyn yn eu gorfodi i fyw mewn fflatiau bychain heb lawer o arian dros ben ar ôl talu'r rhent. I eraill, golygai fyw mewn tai amlfeddiannaeth neu symud o soffa i soffa. Roedd drwgdeimlad yn aml rhwng ffoaduriaid a gweithwyr lloches yn sgil y trawma roedd pobl wedi'i brofi'n flaenorol, y ffaith bod tai'n orlawn a swnllyd, a'r ffaith bod pobl yn ei chael hi'n anodd cysgu gan fod pobl yn gweithio shifftiau anghymdeithasol. Yn achos dau gyfranogwr,

roedd hyn wedi'u gorfodi i roi'r gorau i weithio neu i adael yr eiddo a wynebu bod yn ddigartref.

Analllu i weithio

Rhwystredigaeth gyffredin oedd anallu pobl i weithio wrth geisio lloches. Roedd hyn yn atal pobl rhag defnyddio'u sgiliau, rhag integreiddio yn y gymuned, rhag cael incwm, a rhag cynilo arian. Wrth gael eu troi allan o lety'r Gwasanaeth Cynnal, roedd diffyg cynilion yn golygu ei bod hi'n anodd i bobl ddefnyddio'r sector rhentu preifat, a hynny'n cyfrannu'n uniongyrchol at ddigartrefedd. Fel y dywedodd un cyfranogwr wrthyn ni:

"Fe fyddwn ni'n hoffi gweithio hefyd, a chadw'n brysur... Pan nad oes gennych chi'r math yna o bethau, rydych chi'n pryderu. Rydych chi'n pryderu am y dyfodol ac y byddwch chi'n ddiog yn y dyfodol, dyna'r brif broblem."

"Yn dal i fod, allwn ni ddim gweithio a dibynnu arnon ni'n hunain. Mae'r system yn ei gwneud hi'n anodd iawn i geiswyr lloches fel fi fodoli yn y Deyrnas Unedig a byw bywyd normal. Mae'r gallu i gael popeth yn y bôn yn gyfyngedig iawn."

Astudiaeth achos – Proses geisio lloches hir a digartrefedd

Daeth Ibrahim i'r Deyrnas Unedig yn 2012 i hawlio lloches, a gwrthodwyd hynny'n wreiddiol yn 2014. Treuliodd rywfaint o amser yn symud **o soffa i soffa** wedyn, ond allai neb roi lle iddo yn y tymor hir, felly roedd yn rhaid iddo symud ar ôl ychydig ddyddiau bob tro. Ar ôl cyflwyno apêl, cynigiwyd llety'r Gwasanaeth Cynnal i Ibrahim. Ar ôl cael ei wrthod yr eildro, cafodd ei **droi allan gan y Gwasanaeth Cynnal** a byddai'n cysgu bob yn ail ar y strydoedd neu gyda ffrindiau. Ar ôl gorfod mynd i'r ysbyty gyda Covid yn 2020, cafodd Ibrahim gymorth gan elusen ar ôl cael ei ryddhau, ac mae wedi cael cymorth ers hynny, gan gael ei roi mewn **lleoliadau dros dro am ychydig fisoedd ar y tro.** Mae'r holl broses geisio lloches, a'r cyfnodau ysbeidiol o ddigartrefedd, bellach wedi para ers **dros 10 mlynedd.** Yn ystod y cyfnod hwn, mae Ibrahim wedi gorfod dibynnu ar elusennau i fyw, heb allu gweithio, ac mae hynny'n rhwystredig gan ei fod yn dymuno gweithio a chan y byddai hynny'n rhoi arian iddo fyw. Mae'n teimlo bod ei fywyd wedi aros yn ei unfan.

Diffyg eglurder a dibyniaeth ar elusennau

Nid yw'n syndod i'r cyfranogwyr sôn am ddiffyg dealltwriaeth o'r system a sut mae'n gweithio. Nid ydyn nhw'n deall yn iawn beth y mae ganddyn nhw hawl iddo, ac maen nhw'n amharod i gysylltu â'r awdurdodau rhag ofn iddyn nhw gael eu hallgludo. Nid yw'n syndod bod pobl yn wynebu rhwystrau ieithyddol. Roedd cyfranogwyr felly'n byw bywydau llwm ac yn profi rhai o'r ffurfiau mwyaf bregus ar ddigartrefedd, gan ddibynnu ar elusennau i gael cymorth o ran llety, bwyd neu gyngor.

**Cymunedau pobl Dduon a phobl leiafrifol**

Mae gwaith ymchwil diweddar wedi canfod bod lefelau digartrefedd yn uwch ymhlith cymunedau pobl Dduon a lleiafrifoedd ethnig yn y Deyrnas Unedig. Mae'r ceisiadau digartrefedd statudol rhwng 2016 a 2021 yn dangos bod y cyfraddau'n uwch ymhlith cymunedau lleiafrifol ac yn enwedig ymhlith cymunedau pobl Dduon a hil gymysg. Dangosodd Cyfrifiad 2011 fod lefelau'r gorlenwi yng Nghymru yn 27% ar aelwydydd Bangladeshaidd, yn 19% ar aelwydydd pobl Dduon, ac yn 18.5% ar aelwydydd Arabaidd, o'u cymharu â 4.9% ar aelwydydd Gwyn Prydeinig. Mae profiadau pobl o amodau byw yn wahanol hefyd, gydag aelwydydd Bangladeshaidd a Charibïaidd Du yn fwy tebygol o fyw mewn cartrefi annigonol. Mae problemau lleithder yn amlycach, gyda'r broblem yn effeithio ar 3% o aelwydydd Gwyn Prydeinig, o'u cymharu â 10% o aelwydydd Bangladeshaidd, 9% o aelwydydd Affricanaidd Du, a 8% o aelwydydd Pacistanaidd.

Oherwydd natur gwaith Women Connect First, mae profiadau pobl o ddigartrefedd o ganlyniad i gam-drin domestig wedi'u cyflwyno isod.

Cyfathrebu â'r cyngor

Dywedodd nifer o gyfranogwyr ei bod hi'n anodd cyfathrebu â'r cyngor. Er bod sgyrsiau â staff cynghorau gan amlaf yn rhai cwrtais, ac er i rai cyfranogwyr gael profiadau cadarnhaol, roedd teimladau pobl ar y cyfan yn negyddol. Nid oedd ymatebion i ymholiadau wastad yn cael eu rhoi, ac weithiau bydden nhw'n anghyflawn ac yn cymryd hir i gyrraedd. Dywedodd y cyfranogwyr hefyd eu bod yn gorfod treulio llawer o amser yn bod yn rhagweithiol ac yn cysylltu dro ar ôl tro â'r cyngor.

Dywedodd un cyfranogwr: "Rydw i'n treulio cymaint o amser yn cysylltu â'r cyngor, mae'n llethu rhywun. Fe ofynnais i am lety dros dro ac fe wnaethon nhw anfon y llythyrau i'r cyfeiriad anghywir... i'r tŷ lle roedden ni'n arfer byw. Fy ddylen nhw fod wedi fy ffonio ar fy ffôn symudol."

Dywedodd cyfranogwr arall:

"Mae Women Connect First wedi bod yn cysylltu â'r cyngor ond dydyn nhw byth yn rhoi diweddariad. Maen nhw'n dweud y byddan nhw'n cysylltu pan fydd ganddyn nhw eiddo i ni. Mae'r cyfathrebu'n wael iawn; rydw i'n pryderu bod fy nogfennau wedi mynd i'r swyddfa anghywir gan nad ydw i wedi clywed gair gan y cyngor na'r tîm dewisiadau tai."

Nid yw'n eglur ai rhesymau ieithyddol, llai o ymwybyddiaeth o systemau, ynteu'r staff yn y cyngor sy'n achosi'r rhwystrau cyfathrebu hyn.

Wrth drafod ai eu cefndir sy'n gyfrifol am natur yr ymatebion, teimlai'r cyfranogwyr nad oedd hyn yn arbennig o wir. Agwedd gyffredin oedd: "Dydw i ddim yn teimlo'u bod nhw'n gwahaniaethu yn fy erbyn i... ond dydw i ddim yn deall pam mae'n cymryd gyhyd." Barn cyfranogwr arall oedd: "Mae rhwystrau ieithyddol yn broblem anferth; dydw i ddim yn gallu fy mynegi fy hun yn iawn. Weithiau, rydw i'n credu eu bod nhw'n ei ddefnyddio'n esgus i beidio â gorfod siarad â mi."

Astudiaeth achos – Llety dros dro anaddas ac ansicrwydd am hygyrchedd

Mae Safa wedi bod yn y wlad ers pum mlynedd. Roedd hi'n byw gyda'i theulu mewn cartref rhentu preifat. **Gofynnodd y landlord iddi adael felly gwnaeth hi gais i'r gwasanaeth tai cymdeithasol.** Rhoeson nhw **lety dros dro** iddi. "Mae'r tŷ rydyn ni'n byw ynddo dros dro mewn **cyflwr gwael.** Rydw i wedi fy **nghofrestru'n anabl** ac rydw i'n ei chael hi'n anodd symud. Rydw i wedi cael dwy lawdriniaeth i gael cluniau newydd. Alla' i ddim **mynd i lan a lawr y grisiau** yn rhwydd ac alla' i ddim mynd i mewn a mas o'r bath." Mae'r cyngor wrthi'n creu cyfleuster newydd lle bydd hi'n cael ei rhoi ar ôl i'r gwaith adeiladu gael ei gwblhau. Mae Safa yn gwybod ble mae'r tŷ ond **does ganddi ddim hawl i fynd i'w weld.** Aeth blwyddyn a hanner heibio, a bob tro y bydd hi'n ffonio i ofyn, maen nhw'n dweud wrthi y bydd y tŷ yn barod mewn pythefnos.

“Dydw i ddim yn gwybod beth sy’n digwydd. Rydw i wedi cysylltu â’r cyngor ers misoedd bellach a dydyn nhw byth yn rhoi dyddiad i mi pan fydd y tŷ’n barod.”

“Pan symudon ni i mewn i’r tŷ, fe wnes i esbonio fy mhroblemau symud wrth y cyngor, a hwythau’n dweud mai **dim ond lle dros dro fyddai hwn, a bod yn rhaid i mi ddelio â’r peth**! Mae’r swyddogion yn **gwrtais**, ond dydw i ddim yn **teimlo’u bod nhw’n fy nghefnogi.** Rydw i’n ddiolchgar eu bod nhw’n rhoi cartref newydd i mi; dydw i ddim eisiau cwyno rhag ofn y bydd hynny’n effeithio ar fy nghais.”

“Fe roddais i fy **ngofynion i’r cyngor ar gyfer y tŷ,** fel cawod y gallwch chi gerdded i mewn iddi, ond does gen i **ddim syniad** sut le fydd yno. Dydyn nhw ddim yn sôn gair wrthych chi... Rydw i’n pryderu braidd.”

<u>Amodau byw gwael a landlordiaid gwael</u>

Thema ymhlith nifer o’r cyfranogwyr oedd eu bod nhw’n profi digartrefedd gan nad yw safon eu cartrefi’n ddigon da a chan nad yw’n rhesymol disgwyl iddyn nhw barhau i fyw yno. Roedd hyn yn cynnwys cyflwr cyffredinol cartrefi yn ogystal â’r risgiau, gydag un cyfranogwr yn crybwyll diogelwch adeilad ar ôl tân.

“Roedd y fflat wedi’i dinistrio a doedd gennyn ni ddim hawl mynd yn ôl i’r adeilad am ddeuddydd. Fe ffoniais i’r tîm dewisiadau tai, a ddywedodd wrtha’ i y gallen ni aros mewn gwesty am ddeuddydd. Fe ddywedon nhw y bydden nhw’n ad-dalu cost yr ystafelloedd yn y gwesty i mi – ac rydw i’n dal i aros am y taliad.”

“Mae’n biti na wnaethon nhw gynnig llety dros dro i mi; fe fyddwn i wedi’i gymryd. Fe symudon ni yn ôl i’r fflat. Fis Mawrth diwethaf oedd y tân, a dydy’r landlord yn dal ddim wedi atgyweirio’r adeilad. Mae plastig ar y grisiau. Fe gwympodd fy ngwraig wrth lithro ar y plastig. Mae ei chefn hi nawr yn ddrwg, ac mae ganddi broblemau symud mawr. Rydw i wedi dweud popeth wrth y tîm opsiynau tai, ond dydyn nhw ddim yn gwneud dim byd am y sefyllfa.”

Soniodd cyfranogwr arall am gyflwr ei eiddo:

“Mae fy nhŷ yn 100 oed; tŷ cyngor ydy o. Does gennyn ni ddim goleuadau, ac mae dŵr yn gollwng ym mhobman. Mae llawr y gegin wedi’i ddifrodi, ac mae

llygod ym mhobman. Fe laddais i un ar bymtheg ohonyn nhw y diwrnod o'r blaen. Mae saith ohonon ni'n byw mewn tŷ tair ystafell wely. Rydw i wedi ffonio'r cyngor sawl tro. Maen nhw'n gwrando ond dydyn nhw ddim yn gwneud dim byd."

"Rydyn ni wedi bod yma am ddwy flynedd. Roedd y tŷ mewn cyflwr gwael pan symudon ni i mewn, ond mae'n mynd o ddrwg i waeth. Rydw i wedi anfon lluniau at y cyngor. Does dim modd defnyddio rhai o'r ystafelloedd, maen nhw'n drewi o nwy a lleithder, mae gan fy mhlant asthma, ac mae cyflwr y tŷ yn effeithio ar eu hiechyd nhw. Dydy'r plant ddim yn hapus. Mae'n effeithio ar fy iechyd meddwl, allwn ni ddim ymlacio – mae popeth mewn bocsys."

<u>Astudiaeth achos – Cartref mewn cyflwr gwael a bygythiadau o droi allan</u>

Mae Noah ar hyn o bryd yn byw gyda'i deulu mewn llety preifat sydd mewn cyflwr hynod o wael. Mae'r **landlord yn bygwth eu troi nhw allan yn barhaus.** Nid yw'n gwrando pan fyddan nhw'n sôn am y problemau niferus yn y tŷ, ac nid yw wedi atgyweirio dim byd ers blynyddoedd lawer.

"Mae'r plant yn drist iawn drwy'r adeg. Er bod to uwch ein pennau, mae'n teimlo ein bod ni'n ddigartref. Mae cyflwr gwael y tŷ a'r cymydog swnllyd yn ein gwneud ni'n ddigalon iawn."

Pan ofynnwyd iddo a yw'n teimlo bod y cyngor yn ei gefnogi, ac a fyddai Noah yn derbyn llety dros dro, meddai: "Mae'r rhestrau aros yn hir iawn. **Dydyn ni ddim yn credu bod y cyngor yn rhoi sylw o ddifrif i'n cwynion.** Pe baen nhw'n cynnig llety dros dro i ni, fe fyddwn ni'n symud i mewn yn syth bin. Dydy'r cyngor ddim yn dda am ymateb, a does gen i ddim syniad faint y byddai'n ei gymryd iddyn nhw roi tŷ i ni."

"Rydyn ni wedi bod yn y tŷ hwn ers chwe blynedd. **Mae'r rhent yn anfforddiadwy, ac mae'r landlord yn bygwth ein troi ni allan o hyd.** Mae'r pibelli dŵr yn gollwng, a dŵr yn diferu o'r nenfwd. Mae'n effeithio ar groen fy mhlant – ac mae ganddyn nhw asthma hefyd."

Nid yn unig y mae'r profiadau hyn yn adlewyrchu'r amodau byw annerbyniol, ond hefyd ymddygiad annerbyniol gan landlordiaid. Mae'n ymddangos bod y cyfuniad hwn yn amlycach ymhlith y grŵp ymchwil hwn nag eraill. Dylai Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru), sydd newydd gael ei rhoi ar waith, fod yn fodd o

ddelio â phroblemau sy'n gysylltiedig â landlordiaid gwael a pha mor addas yw cartrefi i bobl fyw ynddyn nhw. Serch hynny, efallai fod cyfle i ystyried y berthynas rhwng cyfreithiau newydd ym maes digartrefedd a thai i ddatrys y sefyllfaoedd hyn, gan gynnwys eu datrys yn gyflymach.

Cam-drin domestig a thrais rhywiol

Roedd nifer o gyfranogwyr wedi profi digartrefedd o ganlyniad i gam-drin domestig a/neu drais rhywiol. Er mai cymysg oedd y cymorth a roddwyd gan gynghorau, ym mhob achos gallai ymyriadau fod wedi'u cyflwyno'n gynt, a gellid bod wedi datrys pethau mewn ffyrdd mwy cynaliadwy. Mewn o leiaf un enghraifft, roedd yr anawsterau'n parhau. Yn ôl un cyfranogwr: "Fe ddechreuodd fy mhartner fy ngham-drin yn gorfforol. Fe dynnodd fy enw oddi ar y cytundeb tenantiaeth, ac fe gollais i fy annibyniaeth. Pe bawn i'n sefyll fy nhir, byddai'n bygwth fy nhaflu allan o fy nhŷ fy hun. Roeddwn i'n gwybod nad oedd gen i hawliau na nunlle i fynd iddo, felly fe wnes i orfod dygymod â chael fy ngham-drin."

"Fe roddais i wybod i'r tîm dewisiadau tai am fy ngŵr, a dweud fy mod i'n ofni y byddai fy mywyd mewn perygl pe bawn i'n aros gyda fy ngŵr. Fy ddywedais i wrthyn nhw nad oedd gen i na fy mhlant nunlle arall i fynd iddo."

"Un diwrnod bu'n rhaid i mi alw'r heddlu ar ôl iddo ymosod yn gorfforol arna' i. Dywedodd yr heddlu nad oedd fy enw ar y ddeiliadaeth ac felly byddai'n rhaid i mi adael. Fe adawais gyda fy mhlant ac aros mewn hostel am ychydig wythnosau. Fe ddes i o hyd i dŷ rhentu preifat a symud i mewn a hawlio budd-daliadau i dalu rhywfaint o'r rhent. Doeddwn i ddim yn gallu fforddio hynny, felly fe gysylltais i â'r cyngor. Roedd y cyngor yn gefnogol iawn. Fe roeson nhw dŷ tair ystafell wely i mi, ac fe lwyddais i symud o'r llety rhentu preifat. Rydyn ni'n iawn erbyn hyn; mae fy mhlant yn hapus."

Astudiaeth achos – Rheolaeth drwy orfodaeth, sensitifrwydd diwylliannol, a diffyg llety

Mae Niah ar hyn o bryd yn byw gyda'i theulu estynedig ac yn **profi rheolaeth eithafol drwy orfodaeth a cham-drin corfforol o dan law ei pherthnasau.** Maen nhw'n dweud wrthi na ddylai merched gael eu gadael o'r tŷ. Mae Niah eisiau mynd i'r coleg a gweithio, ond nid ydyn nhw'n gadael iddi wneud hynny. Mae **ei pherthnasau yn ei chadw'n gaeth yn ei hystafell** a does dim hawl

ganddi i ddefnyddio gweddill y tŷ. Mae Niah yn byw mewn ynysigrwydd llwyr ac mae arni **ofn byw mewn tŷ nad yw'n ei ystyried yn gartref.** Yn aml, bydd ei pherthnasau yn bygwth ei throi allan os na fydd hi'n cydymffurfio â'r rheolau. Yn fwyaf diweddar, mae ei theulu'n rhoi pwysau arni i briodi dyn sy'n hŷn o lawer na hi. Mae Women Connect First wedi cysylltu â nifer o gymdeithasau tai ar ran Niah, yn ogystal â chysylltu â'r cyngor, i ofyn a oes modd iddyn nhw roi llety i'r fenyw ifanc hon sy'n hynod o agored i niwed. Ond mae Niah wedi bod ar y **rhestr dewisiadau tai ers blwyddyn a hanner**. Mae Niah yn dioddef o broblemau iechyd meddwl yn sgil trawma a cham-drin. Mae ei chofnodion meddygol yn datgan ei phroblemau iechyd corfforol a meddyliol yn glir, ac mae'r rheini'n cael eu defnyddio fel tystiolaeth o'i hanghenion tai.

O ran y cymorth y mae hi wedi'i gael gan y cyngor a'r gymdeithas dai, meddai'r cyfranogwr:

"Er bod y swyddogion tai yn y cyngor yn cydymdeimlo, mae'r rhain yn teimlo fel geiriau gwag. Prin yw'r camau pendant maen nhw wedi'u cymryd, a does neb wedi cynnig llety dros dro i mi, hyd yn oed."

"Mae CCHA (y gymdeithas dai) yn fwy cefnogol na'r cyngor, ac yn fy sicrhau y bydda' i'n cael fy symud cyn hir."

O ran y tîm dewisiadau tai:

"Mae'r swyddogion tai wedi fy nghynghori i gysylltu â'r heddlu, ond rydw i wedi gwrthod; mae gen i ormod o ofn y bydd fy nheulu yn fy nghosbi... Does dim sensitifrwydd diwylliannol fan hyn. Pe bawn i'n rhoi gwybod i'r heddlu, byddai'n cymhlethu fy mywyd yn fy nghymuned, byddwn i'n codi gwarth ar fy niwylliant, a byddan nhw'n cefnu arna' i."

<u>Gwasanaethau a chyfraith tai sy'n ystyriol o rywedd</u>

Mae'r profiadau hyn o gam-drin domestig a digartrefedd yn dangos yn glir yr anawsterau y mae menywod yn eu hwynebu wrth geisio cael cartrefi diogel. Er bod y Ddeddf Rhentu Tai yn gwella rhai o'r meysydd hyn, mae'n codi cwestiwn ynghylch sut gallai cyfraith a gwasanaethau tai yn y dyfodol fod yn ystyriol o rywedd. Dywedodd un cyfranogwr: "Rydw i'n credu y dylai'r cyngor a chymdeithasau tai fod yn fwy ystyriol o anghenion tai menywod sy'n dioddef o drais domestig. Dylai fod mwy o dosturi a dealltwriaeth."

Dywedodd cyfranogwr arall ei bod hi wedi cael ei threisio a bod hyn wedi arwain at guddio trawma a ailymddangosodd yn ystod Covid. A hithau'n byw mewn tŷ amlfeddiannaeth ac ynddo chwech o ddynion, fe dreuliai hi'r dyddiau dan glo yn ei hystafell, gan ddefnyddio'r ystafell ymolchi gyda'r nos yn unig. Mae hi'n osgoi mynd i'r gegin rhag i'r dynion fod yn rhy agos ati. Meddai: "Dydw i ddim yn teimlo mai dyma fy nghartref i."

"Fe ddes i at Women Connect First ac fe gysyllton ni â'r cyngor i weld a allen nhw roi llety i mi. Fe wnaethon ni gyflwyno tystiolaeth gan fy meddyg teulu yn profi bod fy amodau byw yn effeithio ar fy iechyd meddwl. Rydw i wedi cael fy rhoi ar y rhestr aros am dai; mae hi wedi bod yn ddwy flynedd, ond rydw i'n dal yma."

**LHDTC+**

Mae gan y gymuned LHDTC+ risg uwch o wynebu digartrefedd na'r boblogaeth yn gyffredinol. Mae cynifer ag 1 ym mhob 4 o bobl ifanc sy'n ddigartref yn arddel hunaniaeth sy'n perthyn i'r gymuned hon. Mae ymchwil i'r profiadau hyn gan AKT wedi dangos y gall profiadau o'r fath fod yn arbennig o drawmatig; teimlai 61% fod aelodau'u teuluoedd wedi'u bygwth neu wedi codi ofn arnyn nhw cyn iddyn nhw fod yn ddigartref, tra bo 17% yn teimlo bod yn rhaid iddyn nhw gael rhyw achlysurol er mwyn dod o hyd i rywle i gysgu. Roedd y gwaith ymchwil hwn hefyd yn dangos bod pobl LHDTC+ yn wynebu risg uwch o fod yn 'gudd' gan fod tuedd iddyn nhw ofyn am gymorth gan ffrindiau yn hytrach na thrwy'r system. Ond nid problem ymhlith pobl ifanc yn y gymuned LHDTC+ yn unig yw digartrefedd. Ers y pandemig, mae Stonewall Housing wedi gweld 70% o gynnydd ymhlith pobl 50 oed neu hŷn yn hyn o beth. Ymhlith y ffactorau risg cyffredin mae: pobl yn llai tebygol o gael cymorth gan eu plant; risg uwch o broblemau iechyd meddwl o ganlyniad i homoffobia mewn cymdeithas; ac aflonyddu gan gymdogion a landlordiaid.

Dyma gefndir ymchwil a gomisiynwyd gan awdurdodau lleol yng Ngwent i brofiadau pobl o ddigartrefedd. Isod mae'r canfyddiadau sy'n berthnasol i'r gwaith ymchwil hwn:

Diffyg casglu data am rywedd a hunaniaeth rhywedd

Dim ond 8% o'r cyfranogwyr a oedd yn sicr bod rhywun wedi gofyn iddyn nhw am eu cyfeiriadedd rhywiol pan ofynnon nhw am gymorth, a dim ond traean a

oedd yn sicr bod rhywun wedi gofyn iddyn nhw am eu hunaniaeth rhywedd. Ymhlith y traean hwn y gofynnwyd iddyn nhw am eu hunaniaeth rhywedd, gwnaed hynny ar wahanol adegau – gan amrywio o'r adeg pan ofynnon nhw am gymorth y tro cyntaf, i'r adeg pan wnaethon nhw'r cais, i'r adeg pan gynigiwyd llety iddyn nhw. Hyd yn oed pan gasglwyd gwybodaeth, dywedodd un ymatebwr bod y wybodaeth honno'n anghywir. Rhoddwyd y rhywedd anghywir i'r ymatebwr, gan "ofyn yn ymosodol i mi symud i hostel i fenywod a dydyn nhw ddim wedi gwrando ar unrhyw esboniad ynghylch pam na alla' i wneud hynny."

Profiadau pobl o lety dros dro

Cymysg oedd profiadau pobl o lety dros dro. Er i rai ymatebwyr i arolwg ar-lein sôn yn gadarnhaol am gael eu rhoi mewn hosteli a'u cysylltu â chymorth ehangach, un o brif argymhellion gwaith ymchwil Gwent oedd y dylid darparu llety'n benodol i bobl LHDTC+. Er enghraifft, dywedodd un cyfranogwr:

"Rydw i'n gwybod am rywun a aeth i loches i bobl ddigartref ar ôl ffoi rhag trais domestig, gan ddioddef ymosodiad rhywiol gan ddefnyddiwr arall, gan fod yr unigolyn yn draws. Felly byddai'r perygl hwnnw'n llai o lawer pe bai'n ofod i bobl LHDT... Byddai hynny'n lleddfu pryderon yn fawr, a byddai pobl yn fwy tebygol o lawer o ddefnyddio'r cymorth sydd ar gael."

"Mae'n brofiad digon anodd eisoes, ond byddai hynny'n gwella cynifer o bethau, fel trawsffobia difater, achosion parhaus o gamgymryd rhywedd pobl, a gorfod esbonio eich profiad wrth bobl sydd erioed wedi clywed am hyn o'r blaen. Byddai'n gwneud popeth yn llawer rhwyddach ac yn fwy diogel yn fy marn i."

Awgrymodd un cyfranogwr y gallai diffyg gwasanaethau pwrpasol gyfrannu at achosion o ddigartrefedd sy'n digwydd dro ar ôl tro, ac yn hynny o beth roedd gwasanaethau'n ddrud ac yn aneffeithlon, a doedden nhw ddim yn atal rhagor o ddigartrefedd:

"Pe baech chi'n edrych ar y canlyniadau i bobl sy'n gadael llochesi penodol i'r gymuned LHDT, byddwn i'n mentro dweud bod y bobl sy'n cael gwasanaethau LHDT yn llawer llai tebygol o fod yn ddigartref eto, oherwydd byddai'r gwasanaeth yn ateb eu hanghenion – bydden nhw ddim yn bobl, er enghraifft, a fyddai'n mynd i loches amhenodol."

promoting equality in housing
hybu cydraddoldeb ym maes tai

Y risg o symud o soffa i soffa

Mae'r heriau sy'n gysylltiedig â phrofiadau pobl o wasanaethau a llety dros dro yn golygu bod 'digartrefedd cudd' yn thema gyson ymhlith y cyfranogwyr dan sylw. Ar hyn o bryd, nid yw'r rheini sy'n symud o soffa i soffa wedi'u cynnwys yn y diffiniad o'r anghenion sy'n cael blaenoriaeth yng Nghymru. Roedd teimlad bod hyn yn golygu bod rhai pobl yn wynebu risgiau. Wrth symud o soffa i soffa, dywedodd un ymatebwr ei fod wedi "dod ar draws pobl a oedd yn yfed bob dydd... gyda chocên a chanabis ar gael am ddim, a byddai hi wedi bod yn hawdd i mi fod wedi dilyn y llwybr hwnnw."

Nid gwasanaeth cyfryngu teuluol yw'r opsiwn iawn wastad

Mae gwaith ataliol yn rhan bwysig o'r gyfraith bresennol ym maes digartrefedd yng Nghymru. Ond i rai pobl ifanc, efallai na fydd gwasanaethau cyfryngu neu geisio dychwelyd yr unigolyn i gartref y rhieni wastad yn addas. Yn ôl un cyfranogwr: "Fe gysylltais i â'r gwasanaethau cymdeithasol, serch hynny, i sôn am fy mam, ychydig cyn i mi gael fy nhroi allan (roedd fy mrawd yn dal i fyw yno a doeddwn i ddim yn teimlo'n ddiogel). Fe gawson nhw ymweliad gan yr heddlu a chefais i wahoddiad i fod yn bresennol. Dywedodd yr heddlu wrthyn ni ei bod hi'n normal i rieni daflu pethau at eu plant a galw enwau arnon ni."

Cysylltiadau lleol

Gall cael cysylltiad lleol ag ardal ddylanwadu ar gynghorau wrth iddyn nhw benderfynu a fyddan nhw'n helpu unigolyn. Er bod y sefyllfa fymryn yn wahanol yn achos y lluoedd arfog, pobl sy'n gadael gofal a chyn-geiswyr lloches, os bydd aelodau agos o'r teulu wedi byw yn yr ardal am o leiaf bum mlynedd, gall hynny ddylanwadu ar allu pobl i gael llety. Eto i gyd, ac ystyried y bydd perthynas rhai pobl yn y gymuned LHDTC+ â'u teuluoedd wedi chwalu, gall grwpiau o ffrindiau cryf chwarae rhan y teulu. Ond nid yw hyn yn rhywbeth sy'n cael ei ystyried, fel y dywedodd un cyfranogwr:

"Dydy cael cysylltiad cymunedol cryf o ran y gymuned LHDT ddim yn cael ei barchu fel cysylltiad lleol o gwbl, oherwydd dydyn nhw ddim yn deall y gall y gymuned fod yn bwysig, os nad yn bwysicach, i bobl LHDT na'u teulu gwaed. Dydw i ddim wedi clywed unrhyw wasanaeth yn parchu hynny fel cysylltiad lleol o gwbl."

## Pethau i'w hystyried

Mae'r gwaith ymchwil hwn yn amlygu profiadau pobl sydd â nodweddion gwarchodedig penodol o ddigartrefedd. A hwnnw'n brosiect ymchwil ansoddol ar raddfa fechan, ni ellir ei ystyried yn sampl pendant o brofiadau'r cymunedau hyn yn eu cyfanrwydd. Serch hynny, drwy roi sylw i astudiaethau achos ac amgylchiadau, mae'n sicr y gallai adlewyrchu'r profiadau hynny.

Mae'r gwaith ymchwil yn canfod profiadau sy'n gysylltiedig â'r gyfraith a gwasanaethau ill dau, ac yn benodol sut gall y ddau beth blethu â'i gilydd. Er nad yw'r adroddiad hwn yn ceisio gwneud argymhellion, rydyn ni'n teimlo bod dau bwynt bras i'w hystyried wrth edrych ar newidiadau posibl i'r gyfraith:

- Sut gall gwasanaethau ym maes tai a digartrefedd, a'r gyfraith sy'n sail i'r rheini, roi gwell gwasanaeth i bobl sydd â nodweddion gwarchodedig?
- Oes modd rhoi diwedd ar ddigartrefedd heb ystyried rhai o'r profiadau penodol sydd wedi dod i ran pobl sydd â nodweddion gwarchodedig – profiadau fel y rheini a grybwyllir yn y gwaith ymchwil hwn ?

I helpu â cham nesaf y broses o ddatblygu'r Papur Gwyn, rydyn ni wedi canfod pethau i'w hystyried ar sail ein gwaith ymchwil, ac wedi gweld y pum thema ganlynol:

1) Mae'n ymddangos bod pobl sydd â nodweddion gwarchodedig yn wynebu anawsterau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'u profiad o ddigartrefedd, fel:

    - Mae'n anodd datrys eu sefyllfa, neu'n anodd i bobl ei deall.
    - Maen nhw'n wynebu rhwystrau wrth geisio codi llais drostyn nhw'u hunain neu roi eu tystiolaeth eu hunain a allai wella'u sefyllfa.
    - Does dim digon o wybodaeth yn cael ei chasglu a allai helpu pobl i ddeall neu reoli eu sefyllfa nhw'n well.
    - Maen nhw'n dibynnu ar asiantaethau allanol i gael cymorth i ddatrys eu problemau.

2) Er bod y diffiniad presennol o ddigartrefedd yn un eang, gallai'r gyfraith a gwasanaethau presennol wneud mwy i ganfod pob math o

ddigartrefedd. I bobl sydd â nodweddion gwarchodedig a allai fod yn profi digartrefedd mewn ffyrdd penodol, gallai hyn olygu'r canlynol:

- Efallai nad yw'r diwylliant sy'n darparu gwasanaethau ac sy'n rhoi'r gyfraith ar waith yn deall anghenion grwpiau penodol yn iawn.
- Efallai nad oes gan y system yr hyblygrwydd i ddelio â rhai o'r amgylchiadau y mae pobl sydd â nodweddion gwarchodedig yn eu hwynebu, yn enwedig y cymhlethdodau a'r union sefyllfaoedd sy'n gysylltiedig â chroestoriadedd.
- A'r system dan bwysau mawr, efallai na fydd anghenion y cymunedau hyn yn cael eu canfod.
- Mae awgrymiadau o'r gwaith ymchwil hwn y gall 'digartrefedd cudd' fod yn uwch ymhlith rhai grwpiau o gyfranogwyr, sy'n golygu bod rhoi diwedd ar bob ffurf ar ddigartrefedd yn anodd.

3) Ymhlith y problemau penodol sy'n ymwneud â llety dros dro mae:

- Diffyg gwasanaethau a llety sy'n addas yn benodol i ddiwylliant grwpiau niferus.
- Nid yw pobl yn dweud eu bod nhw'n ddigartref a/neu'n cael llety dros dro gan nad yw hynny'n ateb eu hanghenion.
- Efallai fod y ffactorau hyn yn cyfrannu at ddigartrefedd cudd.

4) I ddatblygu ar y gyfraith bresennol, gallai fod cyfleoedd i adolygu'r canlynol:

- Ystyried nodweddion gwarchodedig a'u perthynas â'r anghenion sy'n dal i gael blaenoriaeth.
- Sut mae'n ymddangos bod rheolau sy'n ymwneud â chysylltiadau lleol yn effeithio ar ddyrannu eiddo a phwy gallai hynny effeithio'n negyddol arnyn nhw.
- Ac ystyried y pwyslais ar wasanaethau sy'n ystyriol o drawma a rhywedd, sut fath o gyfraith fyddai cyfraith sy'n ystyriol o drawma a rhywedd?

5) Gyda'r nod o roi diwedd ar ddigartrefedd, dylid adolygu'r gyfraith sy'n gorgyffwrdd i ddeall y canlynol:

- A oes modd rhoi diwedd ar ddigartrefedd heb ddiwygio’r gyfraith ym maes mewnfudo?
- Sut gallai’r system les atal digartrefedd?
- A oes cyfleoedd i sicrhau bod y gyfraith yn cyd-fynd â’r gyfraith bresennol ym maes tai yng Nghymru, fel y Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru)?
- Sut bydd newidiadau i Ddeddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a’r Llysoedd yn effeithio ar ddigartrefedd yng Nghymru?
- A allai rhoi dyletswyddau ehangach i gyrff eraill (a chyrff cyhoeddus yn enwedig) helpu i atal digartrefedd?
- Sut gall y gyfraith gyfrannu at greu cyflenwad digonol o gartrefi sy’n atal digartrefedd ac yn gallu rheoli ychydig bach o ddigartrefedd?